CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

**HAF 2015 SUMMER.**

**Ysgol Gymraeg Morswyn.**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol gan roi cyfle i greu ethos myfyrgar.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â chartrefi'r henoed a chynnal gwasanaethau amrywiol yn y capeli.

*The school provides a wide and balanced curriculum that meets the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education.*

*The school's procedures and policies ensure that provision for spiritual, moral, social and cultural development is good. Collective worship sessions create a Christian and moral atmosphere and provide an opportunity to create a reflective ethos.*

*There are valuable opportunities to visit old people's homes and hold various services in the chapels.*

**Ysgol Bodffordd.**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylus ac yn cynllunio ar y cyd gydag ysgolion lleol er mwyn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol yn briodol.

Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus drwy gyfrwng gwasanaethau, codi arian at elusennau, arddangosfeydd pwrpasol ac wrth gynnwys barn y disgyblion am werthoedd ac ymddygiad drwy'r 'Rheolau Aur'.

*The school provides a stimulating range of learning experiences and plans jointly with local schools in order to provide a curriculum that meets statutory requirements appropriately.*

*The school promotes pupils' spiritual, moral and social development successfully through the medium of assemblies, raising money for charities, purposeful displays and including pupils' views on values and behaviour through the 'Golden Rules'.*